CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2000 Rhif 2540 (Cy.163) (C.70)

## ADDYSG, CYMRU

## CYFLOGAETH A HYFFORDDIANT, CYMRU

# Gorchymyn Deddf Dysgu a Medrau 2000 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2000

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn dod â'r darpariaethau hynny yn Neddf Dysgu a Medrau 2000 a bennir yn yr Atodlen i rym ar 19 Medi 2000.

Darperir yn y Gorchymyn ar gyfer cychwyn y darpariaethau sy'n sefydlu'r corff sydd i'w alw'n Gyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant (adran 30) ynghyd â darpariaethau sy'n dilyn o sefydlu'r Cyngor (adran 51 a pharagraffau 3, 4 a 93 o Atodlen 9).

Mae'r Gorchymyn hefyd yn dod ag Atodlen 4 i rym. Mae honno'n cynnwys darpariaethau ynghylch aelodaeth, staff a thrafodion y Cyngor a'i ofynion cyfrifydda.

Mae'r Gorchymyn hefyd yn dod â dwy adran arall i rym sy'n angenrheidiol er mwyn caniatáu i'r Cyngor ddechrau ar y gwaith paratoi y mae ei angen er mwyn iddo ymgymryd â'i swyddogaethau llawn: adran 47 sy'n rhoi pŵer i Gynulliad Cenedlaethol Cymru roi cyfarwyddiadau i'r Cyngor, ac adran 49 sy'n rhoi pŵer i'r Cynulliad Cenedlaethol roi grantiau i'r Cyngor.

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2000 No. 2540 (W.163) (C.70)

## EDUCATION, WALES

## EMPLOYMENT AND TRAINING, WALES

# The Learning and Skills Act 2000 (Commencement No.1) (Wales) Order 2000

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Order)*

This Order brings the provisions of the Learning and Skills Act 2000 specified in the Schedule into force on 19th September 2000.

The Order provides for the commencement of provisions which establish the body to be known as the National Council for Education and Training for Wales (section 30) together with provisions consequential on the establishment of the Council (section 51 and paragraphs 3, 4 and 93 of Schedule 9).

The Order also brings into force Schedule 4 which includes provisions relating to the membership, staffing, proceedings and accounting requirements of the Council.

The Order also brings into force two other sections necessary to allow the Council to begin the preparatory work required to enable it to take on its full functions: section 47, which gives the National Assembly for Wales power to issue directions to the Council, and section 49, which gives the National Assembly power to make grants to the Council.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2000 Rhif 2540 (Cy.163) (C.70)

## ADDYSG, CYMRU

## CYFLOGAETH A HYFFORDDIANT, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Dysgu a Medrau 2000 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2000

*Wedi'i wneud* *15 Medi 2000*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 154(2) a (4) o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000(**a**):

**Enwi, dehongli a chymhwyso**

**1.** —(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Dysgu a Medrau 2000 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2000.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "y Ddeddf" yw Deddf Dysgu a Medrau 2000.

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru.

**Y darpariaethau sy'n dod i rym**

**1.** Daw'r darpariaethau yn y Ddeddf a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn i rym ar 19 Medi 2000.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**b**)

(**a**) 2000 p.21
(**b**) 1998 p.38

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2000 No.2540 (W.163) (C.70)

## EDUCATION, WALES

## EMPLOYMENT AND TRAINING, WALES

## The Learning and Skills Act 2000 (Commencement No.1) (Wales) Order 2000

*Made* *15th September 2000*

The National Assembly for Wales makes the following Order in exercise of the powers conferred on it by section 154(2) and (4) of the Learning and Skills Act 2000(**a**):

**Citation, interpretation and application**

**1.** —1) This Order may be cited as the Learning and Skills Act 2000 (Commencement No.1) (Wales) Order 2000.

(2) In this Order "the Act" means the Learning and Skills Act 2000.

(3) This Order applies to Wales.

**Provisions coming into force**

**1.** The provisions of the Act specified in the Schedule to this Order shall come into force on 19th September 2000.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**b**)

(**a**) 2000 c.21
(**b**) 1998 c.38

15 Medi 2000 | 15th September 2000

*Sue Essex*

Ysgrifennydd Cynulliad | Assembly Secretary

Erthygl 2

## ATODLEN

Y DARPARIAETHAU SY'N DOD I RYM AR 19 Medi 2000.

Adran 30.

Adran 47.

Adran 49.

Adran 51.

Adran 149 i'r graddau y mae'n ymwneud â'r darpariaethau yn Atodlen 9 a bennir isod.

Atodlen 4.

Yn Atodlen 9-
paragraffau 3 a 4 i'r graddau y maent yn ymwneud â Chyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant,
paragraff 93.

Article 2

## SCHEDULE

PROVISIONS COMING INTO FORCE ON 19th September 2000.

Section 30.

Section 47.

Section 49.

Section 51.

Section 149 insofar as it relates to the provisions of Schedule 9 specified below.

Schedule 4.

In Schedule 9-
paragraphs 3 and 4 insofar as they relate to the National Council for Education and Training for Wales,
paragraph 93.

CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

**2000 Rhif 2540 (Cy.163) (C.70)**

**ADDYSG, CYMRU**

**CYFLOGAETH A HYFFORDDIANT, CYMRU**

Gorchymyn Deddf Dysgu a Medrau 2000 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2000

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

**2000 No. 2540 (W.163) (C.70)**

**EDUCATION, WALES**

**EMPLOYMENT AND TRAINING, WALES**

The Learning and Skills Act 2000 (Commencement No.1) (Wales) Order 2000

©ⓗ Hawlfraint y Goron 1999

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 1999

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090130-4

9 780110 901305

**£2.00**

W/151/10/00 ON